

BETHAN WEBB

Dirprwy-Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru, Is-Adran y Gymraeg.

DR ALUN HARDMAN

Mae [Dr Alun Hardman](#) yn Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a hefyd yn Gymrawd yn y [Balsillie School of International Affairs](#), Canada. Mae ei gefndir ymchwil mewn moeseg ac athroniaeth chwaraeon – yn enwedig materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ei weithgarwch ymchwil mwy diweddar yn ymdrin â materion rhyngwladol, cenedlaetholdeb chwaraeon, mudo chwaraeon, a'r Gymraeg a chwaraeon. Mae Alun yn Olygydd Cyswllt i'r [Journal of the Philosophy of Sport](#) ac yn gyd-olygydd ar ddau lyfr sydd ar y gweill, [The Ethics of Sport Coaching](#) a *FIFA, the World Cup and Global Politics*. Mae wedi cyhoeddi mewn nifer o gyfnodolion academiaidd gan gynnwys *Sport, Ethics and Philosophy*, *Journal of the Philosophy of Sport*, *Sport Education and Society*, a *National Identities*.

Addysg

BA (Anrh) – Prifysgol Cymru

BETHAN WEBB

Deputy Director, Welsh Government, Welsh Language Division.

DR ALUN HARDMAN

[Dr Alun Hardman](#) is Senior Lecturer at Cardiff Metropolitan University, as well as a Fellow of the [Balsillie School of International Affairs](#), Canada. His research background is in the ethics and socio-political philosophy of sport – particularly issues of equality, diversity and inclusion. His more recent research activity covers international affairs, sporting nationalism, sporting migration, and Welsh language and sport. Alun is Associate Editor of the [Journal of the Philosophy of Sport](#) and a co-editor of two forthcoming books, [The Ethics of Sport Coaching](#) and *FIFA, the World Cup and Global Politics*. He is published in a range of academic journals including *Sport, Ethics and Philosophy*, *Journal of the Philosophy of Sport*, *Sport Education and Society*, and *National Identities*.

Education

BA (Hons) – University of Wales

MA – Prifysgol Tennessee

PhD – Prifysgol Talaith Pennsylvania

YR ATHRO ELIN HAF GRUFFYDD JONES

Mae Elin Haf Gruffydd Jones yn Athro ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr ar Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Bu'n gweithio ym maes ieithoedd lleiafrifedig Ewrop ers tri degawd. Mae'n rhan o dîm ymchwil prosiect BRO: Arolwg Sosioieithyddol Cynhwysfawr o Gymunedau Cymraeg Cyfoes ac yn aelod o Rwydwaith PLURILINGMEDIA: Lluosogrwydd ieithyddol ac Amgylchedd Newidiol Cyfryngau Ewrop. Mae'n ymgynghorydd i Gyngor Ewrop ar y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol, yn Is-Gadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn Llywydd ELEN Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop.

DR CRAIG WILLIS

Mae Dr Craig Willis yn Ymchwilydd yn yr European Centre for Minority Issues ac yn Gadeirydd ar COST Action: PLURILINGMEDIA. Canolbwyntiai ei ddoethuriaeth ar gyfryngau ieithoedd lleiafrifol o safbwynt cymharol, gan ystyried rôl y rhai nad ydynt yn

MA – University of Tennessee

PhD – Pennsylvania State University

PROFESSOR ELIN HAF GRUFFYDD JONES

Elin Haf Gruffydd Jones is Professor at the University of Wales Trinity Saint David and Director of the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies. She has worked in the field of European Minority Languages for over three decades. She is a member of the research team BRO: A Comprehensive Sociolinguistic Survey of Contemporary Welsh-speaking Communities and of PLURILINGMEDIA: Language Plurality in Europe's Changing Media Sphere. She is a consultant to the Council of Europe on the European Charter for Regional or Minority Languages, Vice-Chair of the Commission for Welsh-speaking Communities and President of ELEN – European Language Equality Network.

DR CRAIG WILLIS

Dr Craig Willis is a Researcher at the European Centre for Minority Issues and the Chair of the PLURILINGMEDIA COST Action. His PhD focused on minority language media from a comparative perspective, considering the role of non-speakers within

siarad yr ieithoedd o fewn strategaethau cynulleidfau gan ddarlledwyr yn Sbaen ac ym Mhrydain. Mae pwnc pêl-droed ac ieithoedd lleiafrifol yn deillio o hyn gan fod chwaraeon byw yn genre arbennig o amlwg i ddarlledwyr mewn ieithoedd lleiafrifol. Y tu hwnt i'r byd academiaidd, mae Craig yn deithiwr pêl-droed brwd, sydd wedi gwyllo gemau mewn 36 o wledydd (hyd yma) ar draws Ewrop, Gogledd a De America ac Asia, a hynny yng nghydestun ieithoedd lleiafrifol yn ogystal.

IAN GWYN HUGHES

Wedi gyrfa fel gohebydd chwaraeon gyda'r BBC, penodwyd Ian Gwyn Hughes yn Bennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

MARIA DE LLUC MUÑOZ CANYELLES

Ganed Maria de Lluç Muñoz Canyelles yn Galilea, Mallorca, yn 1999. Mae ganddi radd baglor mewn Gwyddorau Gwleidyddol a Gweinyddol a gradd meistr agored mewn Gwyddor Wleidyddol. Mae'n gweithio fel Pennaeth Materion Rhyngwladol yn Plataforma per la Llengua, corff anllywodraethol sy'n gyfrifol am yr iaith Catalaneg, ac yn aelod gweithgar o sawl sefydliad sifig sy'n hyrwyddo hawliau ieithyddol a diwylliannol siaradwyr Catalaneg yn yr Ynysoedd Balearaidd a'r

the audience strategies of broadcasters in Spain and the UK. The topic of football and minority languages stems from this as live sport is a particularly prominent genre for minority language broadcasters. Outside of academia, Craig is a keen football tourist, watching games in 36 countries (to-date) across Europe, the Americas and Asia, including in many minority language contexts.

IAN GWYN HUGHES

Following a career as a sports reporter with the BBC, Ian Gwyn Hughes was appointed Head of Public Relations for the Football Association of Wales.

MARIA DE LLUC MUÑOZ CANYELLES

Maria de Lluç Muñoz Canyelles was born in Galilea, Mallorca, in 1999. She holds a bachelor's degree in Political and Administration Sciences and an open master's degree in Political Science. She works as the Head of International Affairs at Plataforma per la Llengua, the Catalan language NGO, and is an active member of several civic organizations advocating for the linguistic and cultural rights of Catalan speakers in the Balearic Islands and the Catalan Countries. A lifelong

Gwledydd Catalanaidd. A hithau wedi bod yn dilyn pêndroed gydol ei hoes, bu'n cefnogi CP Barcelona a CE Atlètic Balears o'r crud. Bu'n chwarae i'w thîm lleol pan oedd yn blentyn, heb lawer o lwyddiant.

DR MIRJAM VELLINGA

Astudiodd Dr Mirjam Vellinga (1972) iaith a llenyddiaeth Ffriseg ym Mhrifysgol Groningen. Bu'n gweithio yn yr Afûk ers 1998 ac mae'n bennaeth marchnata ac yn rheolwr yr adran hybu iaith. Ynghyd â'i thîm, mae'n dylunio strategaethau iaith ac ymgyrchoedd hyrwyddo ar gyfer gwahanol grwpiau targed a pharthau, yn cynnwys y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gofal iechyd, y cyfryngau ac addysg.

Mae ganddi rwydwaith rhyngwladol eang ym maes diwylliant, y cyfryngau ac addysg, yn canolbwyntio ar ieithoedd cyd-swyddogol, ieithoedd dan fygythiad, ieithoedd brodorol, rhanbarthol a lleiafrifol. Mae'n aelod o bwyllgor llywio ELEN (Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop) ac yn aelod o'r NPLD (Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol).

football fan, she has supported FC Barcelona and CE Atlètic Balears since birth. As a child, she played for her local team, though without much success.

DR MIRJAM VELLINGA

Dr Mirjam Vellinga (1972) studied Frisian language and literature at the University of Groningen (RuG). She has been working at the Afûk since 1998 and is head of marketing and manager of the language promotion division. With her team, she designs language strategies and promotional campaigns for different target groups and domains, including the private and public sector, health care, media and education.

She has a large international network in the field of culture, media and education, focused on co-official, endangered, indigenous, regional and minority languages. She is a member of the steering committee of ELEN (European Language Equality Network) and a member of the NPLD (Network to Promote Linguistic Diversity).

HUW BIRKHEAD

Huw Birkhead yw Tiwtor Iaith Gymraeg Clwb Pêl-droed Wreccsam, dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'n gyfrifol am ddysgu Cymraeg i staff, chwaraewyr a chefnogwyr ac am godi proffil y Gymraeg drwy'r clwb. Pan oedd yn tyfu i fyny, roedd Huw yn ddeiliad tocyn tymor yng Nghlwb Pêl-droed Wreccsam ac yn mynychu gemau gyda'i dad. Mae'n chwaraewr pêl-droed brwd, a bellach yn gwireddu ei freuddwyd o weithio yn CPD Wreccsam.

TIM HARTLEY

Mae Tim Hartley yn newyddiadurwr a darlledwr, yn gyn-gadeirydd ar Supporters Direct, yn gadeirydd Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Caerdydd ac yn gyfarwyddwr ar Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru. Ef yw awdur *Kicking off in North Korea* a *The World at Your Feet* a golygydd *Merci Cymru*. Bu'n olrhain ei ymchwil dros y byd am enaid y gêm ar raglen *From Our Own Correspondent* y BBC ac mewn papurau newydd, cylchgronau ac ar wefannau. Mae'n byw gyda'i wraig Helen, sydd hefyd yn cefnogi Dinas Caerdydd. Collwyd eu mab, Chester, i Partizan Belgrade beth amser yn ôl.

HUW BIRKHEAD

Huw Birkhead is the Welsh Language Tutor at Wrexham AFC, funded by the National Centre for Learning Welsh. He's responsible for teaching Welsh to staff, players and fans and for increasing the profile of the Welsh language throughout the club. Growing up, Huw was a season ticket holder at Wrexham AFC attending games with his father. He is a keen football player, and is fulfilling his dream of working at Wrexham AFC.

TIM HARTLEY

Tim Hartley is a journalist and broadcaster, a former vice-chair of Supporters Direct, chair of the Cardiff City Supporters' Trust and a director of the Welsh Football Trust. He is the author of *Kicking off in North Korea* and *The World at Your Feet* and edited *Merci Cymru*. He has recounted his worldwide search for the soul of the game on the BBC's *From Our Own Correspondent* programme and in newspapers, magazines and websites. Hartley lives with his wife Helen, a fellow Cardiff City fan. They lost their son, Chester, to Partizan Belgrade some time ago.

RHODD-ALAW PARRY

Daw Rhodd-Alaw Parry yn wreiddiol o Ynys Môn, ond mae erbyn hyn yn byw yng Nghaerdydd. Am yr wyth mlynedd a hanner ddiwethaf bu'n gweithio i fudiad Urdd Gobaith Cymru, gan gychwyn fel Prentis a bellach yn Swyddog Digwyddiadau Chwaraeon. Mae'r rôl hon yn ei galluogi i gyfuno ei hangerdd am yr iaith Gymraeg gyda'i brwdfrydedd dros roi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau. Yn ei hamser rhydd mae'n mwynhau chwarae rygbi ac yn aelod o glybiau Llandaff North a Gwalia Lightning lle mae'n cystadlu ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae'n credu ein bod ar drothwy dyfodol disglair i ferched o fewn chwaraeon yng Nghymru ac yn edrych ymlaen yn fawr iawn at fod yn rhan ohono.

DR MEILYR JONES

Cwblhaodd Dr Meilyr Jones ddoethuriaeth ym maes cyfryngau cymdeithasol, yr iaith Gymraeg, chwaraeon a hunaniaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ym mis Rhagfyr 2024, o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

RHODD-ALAW PARRY

Rhodd-Alaw Parry is originally from Anglesey in north Wales, but now lives in Cardiff. For the past eight and a half years she has worked for Urdd Gobaith Cymru, first as an Apprentice and now as a Sports Events Officer. This role enables her to combine her passion for the Welsh language with her heartfelt wish to provide opportunities for young people to take part in activities within their own communities. In her free time she enjoys playing rugby as a member of the Llandaff North and Gwalia Lightning clubs, where she gets to compete on national and international levels. She believes we are on the brink of a bright future for women in sports in Wales and is very much looking forward to being part of it.

DR MEILYR JONES

Dr Meilyr Jones completed his doctorate in the field of social media, the Welsh language, sports and identity in Cardiff Metropolitan University in December 2024, under the auspices of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

YR ATHRO ALAN BAIRNER

Mae Alan Bairner is Athro mewn Damcaniaeth Chwaraeon a Chymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough, ac wedi bod yn gweithio cyn hynny ym Mhrifysgol Ulster. Graddiodd mewn Gwleidyddiaeth o Brifysgol Caeredin a chwblhau doethuriaeth ar syniadaeth wleidyddol ym Mhrifysgol Hull. Mae'n gwasanaethu ar fyrddau golygyddol *International Review for the Sociology of Sport*, *National Identities*, a *Soccer and Society*. Ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar mae Vaczi, M. a Bairner, A. goln (2021) *Sport and Secessionism*, London: Routledge; Bairner, A., Chen, T-H a Chiang, Y. goln (2023) *Sport in Taiwan. History, Culture, Policy*. New York, Peter Lang; Bairner, A. (2023) From Old Tom Morris to Andy Murray; an examination of the Scottishness of Scotland's sporting celebrities, *Celebrity Studies*, 14 (3): 350–65; Vaczi, M. a Bairner, A. goln (2024) *Indigenous, Traditional, and Folk Sports: Contesting Modernities*. London: Routledge; Inal, R. a Bairner, A. (2025) Football, diaspora, and Turkish Cypriot identity in London, *Sport in Society*, 28 (1): 142–60.

PROFESSOR ALAN BAIRNER

Alan Bairner is Professor of Sport and Social Theory at Loughborough University, having previously worked at Ulster University. He is a graduate in Politics from the University of Edinburgh and took his PhD in political thought at the University of Hull. He serves on the editorial boards of the *International Review for the Sociology of Sport*, *National Identities*, and *Soccer and Society*. Recent publications include Vaczi, M. and Bairner, A. eds (2021) *Sport and Secessionism*, London: Routledge; Bairner, A., Chen, T-H and Chiang, Y. eds (2023) *Sport in Taiwan. History, Culture, Policy*. New York, Peter Lang; Bairner, A. (2023) From Old Tom Morris to Andy Murray; an examination of the Scottishness of Scotland's sporting celebrities, *Celebrity Studies*, 14 (3): 350–65; Vaczi, M. and Bairner, A. eds (2024) *Indigenous, Traditional, and Folk Sports: Contesting Modernities*. London: Routledge; Inal, R. and Bairner, A. (2025) Football, diaspora, and Turkish Cypriot identity in London, *Sport in Society*, 28 (1): 142–60.

DR SIMON BROOKS

Dr Simon Brooks yw Cadeirydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud argymhellion am sut i gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Bydd adroddiad nesa'r Comisiwn yn trafod ymysg pethau eraill sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn clybiau chwaraeon cymunedol ar lawr gwlad.

Hanesydd diwylliannol a chynllunydd ieithyddol yw Simon o ran ei gefndir. Yn 2018, cyhoeddodd lyfr, *Adra: Byw yn y Gorllewin Cymraeg*, sy'n adrodd ei hanes yn dilyn Clwb Pêl-droed Porthmadog gyda'i fab yn ystod tymor 2017–18. Mae'r llyfr yn defnyddio pêl-droed i sylwebu ar y gymdeithas Gymraeg leol ac i drafod perthynas tad a mab wrth ddilyn eu clwb lleol yn ail haen pêl-droed Cymru.

DR PENNY MILES

Mae Dr Penny Miles yn ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerfaddon. Mae ei hymchwil bresennol yn mynd i'r afael â chroestoriadedd o ran rhywedd, pêl-droed a chenedl o fewn y gêm yng

DR SIMON BROOKS

Dr Simon Brooks is Chair of the Commission for Welsh-speaking Communities. The Commission was established by the Welsh Government to make recommendations on how to increase social use of the Welsh language. The Commission's next report will consider among other matters how to increase the use of Welsh in community-based sports clubs.

Simon's background is as a cultural historian and language planner. In 2018, he published a Welsh-language book, *Adra: Byw yn y Gorllewin Cymraeg* (Home: Life in the Welsh-speaking West), based on a year following Porthmadog Football Club with his son during the 2017–18 season. The book uses football to offer social commentary on community life in this Welsh-speaking town in north-west Wales as well as to discuss the relationship of a father and son as they follow their local club in the Welsh second tier.

DR PENNY MILES

Dr Penny Miles is a lecturer in Politics at the University of Bath. Her current research explores intersections of gender, football and nation in Welsh football with a focus on football's gendered institutions. She has a

Nghymru gan ganolbwyntio ar sefydliadau rhyweddedig y gamp. Mae ganddi bennod dan y teitl 'Welsh Language Policy in Sporting Action, from the FAW to the Red Wall. Language & Nationhood in Wales Football Fandom' sydd wrthi'n cael ei adolygu ar gyfer yr *Handbook of Language and Sport*. Yn ddiweddar (2024) lansiodd ei ffilm hanes llafar ddwyieithog *Cofio Ffrainc – Remembering France* <https://www.youtube.com/watch?v=XQBZ9G7N9-0> sy'n dathlu llwyddiant Cymru yn Ewro 2016 drwy naratifau cefnogwyr benywaidd, gan ddod â naratifau newydd am gefnogaeth i bêl-droed a chenedligrwydd i'r amlwg.

DR FFION ELUNED OWEN

Daw Dr Ffion Eluned Owen yn wreiddiol o'r Groeslon yn Nyffryn Nantlle, ac mae bellach yn byw yng Nghaerdydd. Mae'n un o aelodau selog y Wal Goch, ac wrth ei bodd yn dilyn a chefnogi timau pêl-droed cenedlaethol Cymru ym mhob rhan o'r byd. Mae i'w gweld a'i chlywed yn rheolaidd ar y cyfryngau yn trafod y bêl gron, ac yn mwynhau gweithio a sylwebu ar gemau prif gynghreiriau Cymru ar y penwythnosau. Hi oedd golygydd y gyfrol *Y Wal Goch: Ar Ben y Byd* i ddathlu cyrraedd Cwpan y Byd yn Qatar, ac yn ddiweddar bu'n cyflwyno rhaglen ddogfen *Yr Hawl i Chwarae* ar S4C yn olrhain hanes pêl-droed menywod yng Nghymru. Y tu hwnt i bêl-droed,

chapter 'Welsh Language Policy in Sporting Action, from the FAW to the Red Wall. Language & Nationhood in Welsh Football Fandom' under review in the *Handbook of Language and Sport*. She recently (2024) launched her bilingual oral history film *Cofio Ffrainc – Remembering France* <https://www.youtube.com/watch?v=XQBZ9G7N9-0> which celebrates Cymru/Wales's success at Euro 2016 through female fan narratives, bringing new narratives of football fandom and nationhood to the fore.

DR FFION ELUNED OWEN

Originally from Groeslon in Dyffryn Nantlle, Dr Ffion Eluned Owen now lives in Cardiff. She is a devoted member of the Red Wall and loves following and supporting Wales's national football teams all over the world. She is regularly seen and heard in the media discussing the game and on weekends she enjoys commentating on Welsh league games. She was responsible for editing *Y Wal Goch: Ar Ben y Byd*, which celebrated Wales reaching the World Cup in Qatar, and she recently presented *Yr Hawl i Chwarae* on S4C, looking at the history and development of women's football in Wales. Beyond the game, she has a doctorate

mae ganddi ddoethuriaeth a diddordeb mewn hanes diwylliant llenyddol yr ardaloedd chwarelyddol. Mae'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc yn ei swydd o ddydd i ddydd.

OIHAN ZUBIZARRETA IRIBECAMPOS

Ar hyn o bryd mae Oihan Zubizarreta Iribecampos yn gweithio fel ymgynghorydd ar yr iaith Fasgeg a chyfathrebu yn y sefydliad cydweithredol Emun, ac mae ganddo brofiad o gynllunio a gweithredu cynlluniau iaith o fewn cymdeithasau, cwmnïau a gweinyddiaeth gyhoeddus. Dros y blynyddoedd diwethaf bu Emun yn gweithio ym maes chwaraeon i hyrwyddo'r iaith Fasgeg mewn clybiau a ffederasiynau, gan ddatblygu methodolegau ac ymyriadau i gynyddu'r defnydd o'r iaith ymysg ieuenctid, hyfforddwyr ac aelodau o'r clybiau. Bu Oihan yn gweithio ar brosiectau cydweithredol er mwyn rhannu profiad a gwybodaeth o ran hybu ieithoedd lleiafrifol yng Nghymru (Arfor), Catalwnia (Omnium cultural) a Fryslân.

Mae ganddo radd yn y Gyfraith o EHU-UPV a gradd bellach mewn Sosioieithyddiaeth a Chyfathrebu. Bu'n gweithio yn yr Association Garabide fel cydlynnydd prosiectau cydweithio ieithyddol yn Ngholombia, Yucatan, Mecsico ac Ecwador gyda chymunedau'r

and a vivid interest in the literary culture of the slate quarrying communities. Day to day she works to promote Welsh as an academic subject.

OIHAN ZUBIZARRETA IRIBECAMPOS

Oihan Zubizarreta Iribecampos currently works as an advisor on Basque and communication at the cooperative Emun and has experience in designing and implementing Basque plans in associations, companies and public administrations. In recent years Emun has worked in the field of sport to promote the Basque language in clubs and federations, developing methodologies and interventions to increase the use of the language among youngsters, coaches and club members. Oihan has worked on collaborative projects to share experience and knowledge in the promotion of minority languages in Wales (Arfor), Catalonia (Omnium cultural) and Fryslân.

He has a degree in Law from EHU-UPV and Postgraduate Degree in Sociolinguistics and Communication. He worked in the Basque Association Garabide as coordinator of linguistic cooperation projects in Colombia, Yucatan, Mexico and Ecuador with the Kichwa, Nasa, Embera and Yucatecan Maya language communities. He has worked for different

ieithoedd Kichwa, Nasa, Embera a Maya Yucatecanaidd. Bu'n gweithio hefyd i wahanol elfennau o'r mudad cydweithredol Basgaidd (Mondragon), megis Grŵp Fagor a Labor Kutxa.

DR LANA ST LEGER

Uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yw Dr Lana St Leger, yn arbenigo mewn Strategaeth a Marchnata. Cwblhaodd ei doethuriaeth o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym maes chwaraeon cymunedol a defnydd y Gymraeg ymysg pobl ifanc.

MAINA LE GARS

Ganed Maina le Gars yn 1990 yn Kemper, Llydaw, a'i magu yn yr iaith Lydaweg gan ei rhieni. Mynychodd yr ysgolion trochi Llydaweg, Diwan.

Bu'n chwarae pêl-droed mewn clybiau (mewn timau cymysg yn y lle cyntaf ac yna mewn timau merched) rhwng pan oedd yn wyth oed hyd ei thridegau. A hithau'n angerddol am y gamp, mae'n dilyn hanes a gemau pêl-droed merched a dynion yn frwd. Ers 2022 mae'r diddordeb angerddol hwn wedi ei harwain i sylwebu ar gemau a darlledu ar y radio – ochr yn ochr â'r newyddiadurwr Erwan Blanchard – ar ddigwyddiadau fel

parts of the Basque cooperative movement (Mondragon), such as the Fagor Group and Labor Kutxa.

DR LANA ST LEGER

Dr Lana St Leger is a Senior lecturer at Cardiff Metropolitan University, specializing in Strategy and Marketing. She completed her doctorate under the auspices of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol in the field of community sports and the use of the Welsh language amongst young people.

MAINA LE GARS

Born in 1990 in Kemper, Brittany, France, Maina le Gars was raised in Breton by her parents and attended Breton-language immersion schools, Diwan.

She played football in clubs (first in mixed teams, then in women's teams) from the age of eight to her thirties. Passionate about this sport, she closely follows both women's and men's football news and matches. Since 2022, this passion has led her to commentate on matches, broadcast on the radio – alongside journalist Erwan Blanchard – covering events such as the last

gêm derfynol Cwpan y Byd, gemau Cwpan Ffrainc lle mae timau o Lydaw yn cymryd rhan, ac ymgyrch y Stade Bretois yng Nghynghrair y Pencampwyr. Caiff y gemau eu darlledu ar rwydwaith pum gorsaf Lydaweg Radio Breizh: Arvorig FM, Radio Kreiz Breizh, Radio Kerne, Radio Bro Gwened a Radio Naoned.

O ran ei gyrfa broffesiynol, treuliodd Maina y deuddeng mlynedd diwethaf yn gweithio ym maes cyfathrebu a chydweithredu mewn sefydliad diwylliannol yn ymwneud â'r sinema.

DEREK MACAOIDH

Mae Derek MacAoidh yn newyddiadurwr, cyflwynydd a sylwebydd chwaraeon sy'n hanu o Ynys Leòdhais yn Ynysoedd Gorllewin yr Alban (neu na h-Eileanan an Iar).

Mae'n rhan o dîm bychan o sylwebyddion sydd wedi bod yn gyfrifol am ddarpariaeth chwaraeon sianel deledu BBC Alba fyth ers ei sefydlu yn 2007, gan ddod â phêl-droed, rygbi, bando a champau eraill i sylw cynulleidfaoedd ledled yr Alban drwy gyfrwng yr Aeleg.

Mae'n gweithio drwy gyfrwng Gàidhlig/Gaeleg yr Alban a Saesneg – weithiau ar yr un pryd. Cyn hyn, bu Derek yn ohebydd ar *Eòrpa*, rhaglen arobryn y BBC ar faterion

World Cup Final, French Cup matches involving Breton teams, and Stade Bretois' Champions League campaign. The matches are broadcast on the network of the five Breton-language radio stations of Radio Breizh: Arvorig FM, Radio Kreiz Breizh, Radio Kerne, Radio Bro Gwened and Radio Naoned.

Professionally, Maina has spent the past twelve years working in communication and coordination within a cultural organization, in cinema.

DEREK MACAOIDH

Derek MacAoidh (Mackay) is a journalist, presenter and sports commentator from the Isle of Lewis, in Scotland's Western Isles (or na h-Eileanan an Iar).

He is part of a small team of commentators involved in sport coverage for the BBC Alba television channel since its launch in 2007, bringing coverage of football, rugby, shinty and other sports in Scottish Gaelic to audiences throughout Scotland.

He works in both Gàidhlig/Scottish Gaelic and English – sometimes at the same time. Previously, Derek was a reporter on the BBC's award-winning Gaelic-language

cyfoes Ewrop yn yr iaith Aeleg; rhoddodd hynny olwg bellach iddo ar y profiadau o weithio o fewn gwahanol ddiwylliannau a chyd-destunau ieithyddol.

Mae'n siarad Gàidhlig, Saesneg a rhywfaint o Bwyleg ond yn llythrennol dim ond gair neu ddau o Gymraeg!

IOLO CHEUNG

Mae Iolo Cheung yn newyddiadurwr amlgyfrwng gyda BBC Cymru sy'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn gohebu ar y teledu, radio ac arlein. Mae hefyd yn sylwebydd ar gemau pêl-droed i *Sgorio*, yn bennaf ar Uwch Gynghrair Cymru. Cyn ymuno â'r BBC yn 2016, bu'n gweithio fel newyddiadurwr i *Golwg* a *Golwg360*. Er mai newyddion cyffredinol yw ei brif faes gwaith, mae wedi gohebu hefyd ar ddigwyddiadau chwaraeon, a bu'n rhan o dîm BBC Cymru fu'n gweithio yng Nghwpan y Byd Qatar 2022 a Chwpan Rygbi'r Byd Ffrainc yn 2023. Mae'n dilyn tîm pêl-droed Cymru fel cefnogwr yn ogystal, ac yn trafod y tîm cenedlaethol ar y cyfryngau cymdeithasol.

DR ENRIQUE URIBE-JONGBLOED

Ymchwilydd gyda Media Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd yw Dr Enrique Uribe-Jongbloed. Bydd yn cadeirio

European current affairs programme, *Eòrpa*, which gave him some insight into working in different cultures and linguistic contexts.

He speaks Gàidhlig, English and some Polish but literally only a word or two of Welsh!

IOLO CHEUNG

Iolo Cheung is a multimedia journalist with BBC Wales who works in both Welsh and English, and reports on television, radio and online. He also commentates on football matches for *Sgorio*, mainly on the Welsh Premier League. Before joining the BBC in 2016, he worked as a journalist for *Golwg* and *Golwg360*.

Although his main area of work is general news, he has also reported on sporting events, and was part of the BBC Wales team responsible for covering the Qatar 2022 World Cup and the French Rugby World Cup in 2023. He follows the Welsh football team as a fan too, and discusses the national team on social media.

DR ENRIQUE URIBE-JONGBLOED

Dr Enrique Uribe-Jongbloed is a researcher for Media Cymru at Cardiff University. He will be chairing the

Cynhadledd Ryngwladol ar leithoedd Lleiafrifol yn Bogotá ym Mehefin 2025. Cwblhaodd ei ddoethuriaeth ar gyfryngau ieithoedd lleiafrifol yn 2012 a dysgu Cymraeg yn yr un cyfnod.

DR LLION IWAN

Mae Dr Llion Iwan newydd ei apwyntio yn Brif Swyddog Cynnwys S4C. Bu ganddo yrfa hir ym maes y cyfryngau fel newyddiadurwr, cyfarwyddwr, cynhyrchydd, comisiynydd a darlithydd prifysgol. Mae hefyd yn awdur llwyddiannus.

International Conference on Minority Languages in Bogotá in June 2025. He completed his doctorate on minority language media in 2012 and learnt Welsh during the same period.

DR LLION IWAN

Dr Llion Iwan has just been appointed S4C's Chief Content Officer. He has had a long career in the field of media as a journalist, director, producer, commissioner and university lecturer. He is also a successful author.